OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1914 (Cy. 283)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 (Coryton, Caerdydd i Landdewi, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym* | *18 Tachwedd 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470), Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), Cefnffordd Parc Glan-wysg (Crucywel) – Llys-wen (yr A479) a'r darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Tachwedd 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 (Coryton, Caerdydd i Landdewi, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo llwyth anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 18 Tachwedd 2015 ac sy'n dod i ben pan fydd y

gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 yn Sir Caerdydd, Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Tachwedd 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Coryton (Cyffordd 32), Caerdydd hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A40 wrth Gylchfan Tarrell, Aberhonddu, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Tarrell, Aberhonddu hyd at ei chyffordd â Chylchfan Brynich, Aberhonddu, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Brynich, Aberhonddu hyd at ei chyffordd â ffordd sirol yr A438 wrth Bont-y-bat, Llanfilo, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A479 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A438 wrth Gylchfan Castell Bronllys, Bronllys hyd at ei chyffordd â'r A438 wrth Gyffordd Marish, Bronllys, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A44 wrth Gylchfan y Groes, y Groes, Powys hyd at ei chyffordd â'r ffordd sirol ddiddosbarth wrth gyffordd y Tolldy, Llanddewi, Powys.